

CYD-BWYLLGOR PROSIECT GWYRDD

Dydd Llun, 22 Mai 2023, 11.00 am

LLEOLIAD: Cyfarfod o Bell

Yn bresennol:

Aelodau Etholedig:

Cynghorydd Caro Wild, Caerdydd (Cadeirydd)

Cynghorydd Chris Weaver, Caerdydd

Councillor Chris Morgan, Caerffili

Councillor Catrin Maby, Monmouthshire

Councillor Yvonne Forsey, Casnewydd

Councillor Laura Lacey, Casnewydd

Councillor Mark Wilson, Bro Morgannwg

Swyddogion:

Andrea Redmond

Andrew

Williamson

Sian Humphries

Colin Smith

Julie Baker

Matt Wakelam

Gary Watkins

Liese Mills

Lucy Patterson

Marcus Lloyd

Hayley Jones

Carl Touhig

Partneriaeth o Gyngorau



Parter cefnogol



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Rhif	Eitem
8	Ymddiheuriadau am Absenoldeb Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Pritchard a Marc Falconer.
9	Datgan Buddiannau Dim wedi'u derbyn.
10	Cofnodion Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022 yn gofnod cywir.
11	Materion yn Codi Cafodd pob mater yn codi ei ystyried o fewn eitemau'r agenda.
12	<p>Adroddiad Diweddar</p> <p>Rhoddodd y swyddogion amlinellid cynhwysfawr i'r Aelodau o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Diweddar a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau.</p> <p>Gofynnodd yr Aelodau a ellid cyflwyno tunelledd y pen fel ystadegyn gan eu bod o'r farn y byddai'n ddiddorol gwybod hyn. Dywedodd y swyddogion y dylai fod gan awdurdodau lleol priodol y data hwn, ond y byddent yn cael y wybodaeth hon a'i dosbarthu i'r Aelodau. Pwysleisiodd y swyddogion fod angen i'r Aelodau gofio bod rhywfaint o fasnach hefyd yn defnyddio'r contract felly bydd hyn yn effeithio ar rai ffigyrau.</p> <p>Gofynnodd yr Aelodau beth sy'n digwydd i'r gwastraff nad yw wedi'i gynnwys yma ond nad yw'n ddigon da i'w ailgylchu. Esboniodd y swyddogion fod y ffigurau'n ymwneud â'r hyn sydd wedi'i gyflwyno i Brosiect Gwyrdd, mae pob Awdurdod Lleol yn adrodd y tunelledd cyfan a'r hyn sy'n digwydd i Lywodraeth Cymru a dylai fod gan swyddogion priodol pob Awdurdod Lleol fynediad at y wybodaeth hon.</p> <p>Cyfeiriodd yr Aelodau at y 473 tunnell o weddillion llygredd aer a gofynnon nhw a oedd hon yn sefyllfa barhaus. Esboniodd y swyddogion y rhesymau dros hyn sef bod technoleg gyfyngedig iawn ar gyfer ailgylchu'r math hwn o ddeunydd ar hyn o bryd, bod Avonmouth yn delio ag ardal eithaf mawr, a dwysedd a chyfuno'r deunyddiau. Gobeithio y bydd technoleg yn gwella yn y dyfodol. Gofynnodd yr Aelodau a cheisiwyd cymorth gan Lywodraeth Cymru gan y byddai hyn yn helpu Cymru i fwrw ei tharged ailgylchu. Cytunodd y swyddogion i gael gwybod am hyn.</p> <p>Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cael adroddiad cyfansoddiadol, gyda dadansoddiad o ffynonellau, adegau o'r flwyddyn, pa</p>

No	Item	Action
	<p>ddeunydd ac ati. mewn cyfarfod yn y dyfodol.</p> <p>Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar Rwydwaith Gwres Caerdydd ac roeddent o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cael diweddariad yn rheolaidd.</p> <p>Cyfeiriodd yr Aelodau at nifer yr ymweliadau â Viridor a gofynnion nhw a ydynt yn gyson neu a welwyd unrhyw newidiadau mawr. Esboniodd y swyddogion fod gostyngiad wedi bod yn y niferoedd oherwydd Covid a bod 'ymweliadau' wedi eu symud ar-lein; nawr roedd ymweliadau rhithwir ac wyneb yn wyneb yn digwydd. Mae'r ganolfan ymwelwyr yn cael ei hyrwyddo mewn ysgolion.</p> <p>PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.</p>	
13	<p>Datganiad Ariannol Blynyddol ac Alldro 2022/23</p> <p>Rhoddodd y swyddogion amlinelliad cynhwysfawr i'r Aelodau o'r wybodaeth yn adroddiad Datganiad Ariannol Blynyddol ac Alldro 2022/23 a gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau.</p> <p>PENDERFYNWYD:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Nodi'r sefyllfa alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. ii. Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol, ac felly awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r Datganiad Blynyddol ar ran y Cydbwyllgor, a'i gyflwyniad dilynol i Swyddfa Archwilio Cymru i gychwyn archwiliad 2022/23. 	
14	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf - i'w gadarnhau</p> <p>Dywedodd y swyddogion y byddai angen cyfarfod ddiwedd mis Tachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr, byddai hyn yn cael ei drefnu yn ystod yr wythnosau nesaf.</p>	